# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

**Y Cynghorydd Alex Williams** **Ward: Penprysg**

**Plaid: Cynghrair Annibynnol**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben **30 Ebrill 2018.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli ward Penprysg ar 4 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 128 o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** drwy ddilyn y ddolen hon.

**Gweithgarwch Etholaeth**

Yn ogystal â chynorthwyo preswylwyr ag amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â'r cyngor, yn ystod 2017/18, rwyf wedi:

- Cefnogi preswylwyr gyda materion yn ymwneud â'r casgliad ailgylchu a sbwriel newydd;
- Gwneud sylwadau ar faterion sy'n ymwneud ag adeiladu Ysgol Gynradd Pencoed newydd a'r 40 o gartrefi newydd ar safle'r hen Ysgol Gynradd gan gynnwys materion parcio a chludiant.
- Ymgyrchu er mwyn sicrhau bod South Wales Wood Recycling (SWWR) yn cymryd ei gyfrifoldeb tuag at ein cymuned o ddifrif ar ôl cael cwynion gan drigolion ynghylch oriau gweithredu SWWR.
- Cefnogi Clwb Rygbi Heol-y-cyw gyda'i ymdrechion i sicrhau trosglwyddo'r Pafiliwn i'w feddiant fel rhan o drosglwyddo asedau cymunedol.

- Cefnogi'r pwyllgor sy'n datblygu'r llwybr beicio o Heol-y-cyw i Bencoed.

- Rwyf wedi ymgyrchu dros gyflwyno cyfyngiad cyflymder 30 mya ar Bant Hirwaun yn Heol-y-cyw a chefnogi cyflwyno cyrbau isel gostwng cyrbau ledled ward Penprysg.

- Dod yn “Eiriolwr Dementia” a byddaf yn ceisio gweithio gyda Chymdeithas Alzheimer's fel bod Pencoed a Heol-y-cyw yn dod yn gymunedau sy'n ystyriol o ddementia.

- Llwyddais i ddod â rhanddeiliaid ynghyd i ddechrau gwelliannau i Lwybr y Glowyr sy'n rhedeg i lawr Cefn Hirgoed o Bencoed i Frynteg yn Heol-y-cyw.

- Cyflwyno biniau gwastraff newydd a threialu'r cynllun Tikspac llwyddiannus er mwyn mynd i'r afael â baw cŵn.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rhwng mis Mai a mis Medi 2017, cadeiriais bwyllgor craffu 1 CBSP a chadeirio sesiwn ar ddeddfwriaeth anghenion dysgu ychwanegol arfaethedig Llywodraeth Cymru.

Gwnaeth y pwyllgor gyfres o argymhellion a gyflwynwyd i gabinet CBSP a Llywodraeth Cymru mewn ymdrech i wella'r arlwy i'r bobl ifanc hynny a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol ym mwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Ymhlith yr argymhellion eraill, argymhellodd y pwyllgor fod:

- cyllid yn cael ei glustnodi i ddiwallu anghenion pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol;

- dylai prentisiaethau gael eu hystyried fel dull i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol symud ymlaen i gyflogaeth;

- mae'r awdurdod lleol yn ystyried sut yr effeithir ar drefniadau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol fel rhan o'r darpariaethau newydd yn y Bil; ac

- mae'r awdurdod yn dysgu o arfer gorau oddi wrth awdurdodau lleol o Gymru a thu hwnt mewn ymdrech i wella perfformiad academaidd y bobl ifanc hynny ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Noddais dri chynnig yn ystod 2017/18 y cytunwyd arnynt gan y cyngor a oedd yn ceisio:-

- ailalinio cyllideb yr awdurdod i ddiogelu gwariant ar addysg tra'n sicrhau cyllideb gytbwys. (Mai 2017)

- cydnabod y pryder cyhoeddus llethol ynghylch y cynllun rheoli gwastraff ac ailgylchu newydd ac atgyfeirio gweithrediad y contract gwastraff i'r pwyllgor craffu. (Mai 2017)

| |
|---|
| • annog CBSP i ystyried Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus a fyddai'n gwahardd mynd â chŵn am dro o bob ysgol, ardal chwarae plant a chaeau chwaraeon wedi'u marcio gan y cyngor er mwyn mynd i'r afael â baw cŵn a'r goblygiadau iechyd cysylltiedig. (Tachwedd 2017) |
| **Cynghorydd: Alex Williams** **Dyddiad: 17 Mai 2018** |